# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 5 Rhagfyr 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Trafodaethau ynghylch Cyfraith a Threfn

**C17 John Griffiths:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda Gweinidogion San Steffan ynghylch cyfraith a threfn yng Nghymru? (OAQ8225)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Thai, sydd yn ddiweddar wedi cymryd y prif gyfrifoldeb o fewn y Cabinet dros leihau troseddu, yn bwriadu cyfarfod Gweinidogion Whitehall a chadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda hwy, yn arbennig y rhai yn y Swyddfa Gartref. Bydd hefyd yn adeiladu perthynas dda gydag asiantaethau allweddol sydd yn ymwneud â lleihau troseddu ac anhrefn yng Nghymru ac mae eisoes wedi cytuno i gyfarfodydd chwarterol gydag awdurdodau heddlu Cymru.

### Gweithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'

**C18 Jonathan Morgan:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch y camau a gymerwyd i weithredu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ8227) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Effaith Polisïau'r Cynulliad ar y Gogledd

**C19 Elin Jones:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda'r sector cyhoeddus ynghylch effaith polisïau'r Cynulliad ar y Gogledd? (OAQ8236)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Gweinidogion y Cynulliad yn cwrdd yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr cyrff cyhoeddus, gan gynnwys cyrff yr NHS, awdurdodau lleol a phartneriaethau busnes, i drafod effaith polisïau'r Cynulliad ar y Gogledd.

### Rhoi Rôl Mwy Blaenllaw i Gymru a'r Cynulliad ar y Llwyfan Rhyngwladol

**C20 Brian Hancock:** Pa gynlluniau sydd gan Brif Weinidog Cymru i roi rôl mwy blaenllaw i Gymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ar y llwyfan rhyngwladol? (OAQ8237)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae cynyddu dylanwad a phroffil rhyngwladol Cymru yn flaenoriaeth gennym. Mae'r Cynulliad, un ai'n uniongyrchol neu drwy'r cyrff a noddir ganddo, eisoes yn gysylltiedig â gwaith nifer o sefydliadau rhyngwladol ac mae'n sefydlu perthnasau gyda nifer gynyddol o wledydd a rhanbarthau dramor. Mae ein cyfranogiad cynyddol mewn materion Ewropeaidd, drwy bresenoldeb Gweinidogion y Cynulliad yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion ac, yn achlysurol, wrth arwain ar ran y DU, yn esiampl dda o'r hyn y gellir ei gyflawni. Disgwyliaf i'n presenoldeb ym Mrwsel arwain at rôl fwy dylanwadol. Mae'n amlwg hefyd fod gwledydd eraill yn awyddus iawn inni gyfranogi mewn materion rhyngwladol. Er enghraifft, fe'm gwahoddwyd yn ddiweddar i gynhadledd ryngwladol o lywyddion rhanbarthau sydd â grym deddfwriaethol. Yn fyr, yr wyf yn awyddus i ddynodi a manteisio ar bob cyfle i gynyddu ein rôl a'n dylanwad ar y llwyfan rhyngwladol.

### Lle Ymgynghori oddi mewn i'r Cabinet

**C21 Helen Mary Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar le ymgynghori oddi mewn i'r Cabinet? (OAQ8244)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae fy holl gyd-Aelodau yn y Cabinet a minnau yn ymgynghori’n helaeth wrth lunio polisïau.

### Diogelu Ardaloedd a Ddioddefodd o Ganlyniad i’r Llifogydd Diweddar

**C22 Alison Halford:** Yn ei rôl fel cyd-drefnydd polisi ar gyfer y Gogledd, beth y mae Prif Weinidog Cymru’n ei wneud i sicrhau y bydd ardaloedd a ddioddefodd o ganlyniad i’r llifogydd diweddar yn cael eu diogelu yn y dyfodol? (OAQ8239)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf mewn cysylltiad agos gyda’r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Edwina Hart, a’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Sue Essex, i sicrhau y cynhelir asesiad priodol o’r sefyllfa ac y gwneir gwaith addas i leihau’r perygl o lifogydd i’r dyfodol yn yr ardaloedd hynny yn y gogledd y bu i’r llifogydd diweddar effeithio’n ddifrifol arnynt.

### Cynlluniau i Newid Cyfrifoldebau Aelodau’r Cabinet

**C23 David Lloyd:** A oes gan Brif Weinidog Cymru unrhyw gynlluniau i newid cyfrifoldebau Aelodau’r Cabinet? (OAQ8245)

**Prif Weinidog Cymru:** Nac oes.

### Trafodaethau ynghylch Dyfodol Cymru

**C24 Cynog Dafis:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru restru’r gwledydd y mae wedi cynnal trafodaethau swyddogol â hwy ynghylch dyfodol Cymru? (OAQ8247)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyfarfûm â chynrychiolwyr—Aelodau Seneddol, llysgenhadon, Gweinidogion ac uwch swyddogion—nifer o wledydd a rhanbarthau dramor. Mae’r rhan fwyaf o drafodaethau wedi cyffwrdd ar ddyfodol Cymru, mewn un ffordd neu’r llall. Er iddynt gael eu cynnal mewn amgylchiadau swyddogol efallai, ni fuaswn yn eu hystyried yn ‘drafodaethau swyddogol ynghylch dyfodol Cymru’.

Cefais drafodaethau swyddogol gyda’r Prif Weinidog am ddyfodol Cymru.

### Trafodaethau ynghylch yr Undeb Ewropeaidd

**C25 Phil Williams:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi’u cael gyda Chabinet y Cynulliad ynghylch yr Undeb Ewropeaidd? (OAQ8238) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Blaenraglen Waith y Weinyddiaeth ar gyfer 2000-01

**C26 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar flaenraglen waith y weinyddiaeth ar gyfer 2000-01 a gyhoeddwyd ar 21 Tachwedd? (OAQ8230) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Diogelu Defnyddwyr yng Nghymru

**C27 Christine Humphreys:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi’u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd i ddiogelu defnyddwyr yng Nghymru? (OAQ8223)

**Prif Weinidog Cymru:** Caf gyfarfodydd rheolaidd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a thrafodir nifer o faterion yn y cyfarfodydd hyn.

**Tryloywder yn y Cynulliad Cenedlaethol**

**C28 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar dryloywder yn y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ8240)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn awyddus i weld naws fwy agored wrth wraidd busnes y Cynulliad. Cynhelir ein cyfarfodydd yn gyhoeddus a chânt eu darlledu. At hynny, mae cofrestr o ddogfennau'r Cynulliad ar gael ar y rhyngrwyd. Mae'r safle hwn yn dal i gael ei ddatblygu a chaiff ei ymestyn i gynnwys amrywiaeth ehangach o wybodaeth. Mae Cofnodion cyfarfodydd y Cabinet a'r briffiau i'r wasg hefyd ar gael yn awr ar y rhyngrwyd, yn ogystal â Chofnod o Drafodion y Cynulliad.

**Partneriaeth mewn Busnes**

**C29 William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch partneriaeth mewn busnes? (OAQ8229)

**Prif Weinidog Cymru:** Cafwyd tri chyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth Busnes hyd yma, gan gynnwys ei gyfarfod agoriadol, a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 1999. Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf cyn diwedd y flwyddyn. Mae gwybodaeth am gyfarfodydd ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan 'Polisi a Gwybodaeth' a 'Diwydiant a Hyfforddiant'.

**Y Broses o Ddatblygu Polisi yn y Cabinet**

**C30 Gareth Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru datganiad byr ar y broses o ddatblygu polisi yn ei Gabinet? (OAQ8242)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae fy holl gyd-Aelodau yn y Cabinet a minnau yn ymgynghori'n helaeth wrth ddatblygu polisïau.